PWYLLGOR Y CYFANSODDIAD

DYDD MERCHER, 25 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Goodway(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Burke-Davies, Carter, Goddard, Jones-Pritchard, Kelloway, McEvoy, McKerlich a/ac Wong |

9 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Saeed Ebrahim a Keith Jones.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni fu unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

11 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Awst 2017 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd Susan Goddard fel ymddiheuriad.

12 : ADOLYGIAD O'R CYFANSODDIAD

Gwnaeth y Pwyllgor dderbyn ac ystyried meysydd posibl o newid i'r rheolau gweithdrefn ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Llawn a rhannau eraill o'r Cyfansoddiad, i sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar gyfer y gweithgareddau perthnasol yn addas at y diben ac yn trafod yn briodol holl fusnes y Cyngor.

Dywedodd y Cadeirydd, ers y cyfarfod diwethaf, fod trafodaethau pellach wedi'u cael gydag Arweinydd y Cyngor, Arweinwyr Pleidiau a Chwipiau Pleidiau. Roedd hyn wedi'i ddilyn gan drafodaethau mewn pleidiau gwleidyddol.

Rheolau Gweithdrefn Cyfarfodydd y Cyngor (RGC) – Rhoddodd adborth gan Chwipiau Pleidiau ar y ddogfen ymgynghori wedi'i gael yn dilyn y cyfarfod ym mis Awst, ynghyd â data meincnodi gan ddinasoedd craidd, gefndir i'r Pwyllgor ei ystyried a gwneud argymhellion.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r bwriad oedd cael mwy o fusnes a chyfarfodydd Cyngor â chanolbwynt a bod consensws cyffredinol y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu cyn y Cyfarfod Blynyddol nesaf.

Cytunwyd ar y canlynol: -

- Nid oedd angen am amser dod i ben cyn gorffen gan y teimlwyd y byddai Cadeirydd y Cyngor yn gallu rheoli'r busnes o fewn y cyfyngiadau amser wedi neilltuo fel nad yw cyfarfodydd yn para'n hwyrach na 10.00pm.
- Fodd bynnag cytunwyd y dylai cyfyngiadau amser yr eitemau agenda gael eu cynnwys yn y RGCau, gyda disgresiwn i'r Arglwydd Faer eu hymestyn. Cynnwys rheol i reoli a chyfyngu ar deyrngedau a chlodydd;
- Cyfyngir ar nifer y Deisebau Arferol i ddau fesul cyfarfod;

- Dylai Papurau Gwyrdd y Cabinet a ddadleuir arnynt yng nghyfarfod y Cyngor gael eu cyfrif yn rhan o broses ddyrannu Deisebau Arferol y grŵp arwain.
- Ailgyflwyno'r rheol na ddylai diwygiadau i Ddeisebau Arferol negyddu'r ddeiseb arferol;
- Yr Aelod Cabinet i gael yr hawl i ymateb i ddeiseb ac (gyda chytundeb y cynigiwr a'r eiliwr) i gynnig bod y pleidlais yn cael ei ohirio i'r cyfarfod nesaf, er mwyn rhoi'r cyfle i'r Cabinet ystyried y mater yn gyntaf;
- Datganiadau'r Cabinet i gael eu cylchredeg gydag agenda'r Cyngor a bod ymwneud â chyhoeddiadau Polisi, diweddariadau, materion ynghylch y gyllideb neu faterion o bwys;
- Peidio â chyfrif Aelodau Cabinet a Chynorthwywyr aelodau Cabinet ym mhroses ddyrannu cymesurol cwestiynau llafar y grŵp arwain;
- Dileu'r gallu i ofyn ail gwestiwn ategol ar lafar;
- Darparu ar gyfer atebion cyfansawdd i gwestiynau llafar sy'n gysylltiedig yn agos â'r pwnc neu'n ymwneud â'r un pwnc, lle bo'n briodol;
- Galluogi pleidiau gwleidyddol i nodi eu dewis siaradwyr o flaen llaw ar gyfer dadleuon ar faterion penodol os hoffent (ond gan gadw disgresiwn yr Arglwydd Faer).

Nid oedd unrhyw gasgliad clir i'r gweithgareddau canlynol yn ymwneud â'r RGC:-
- Sut i gynnig cyfle ar gyfer mwy o Amser Gwrthwynebu;
- Ystyried a ddylid ailgyflwyno'r Dadl i Aelodau;
- Sut gellir rheoli cwestiynau ar Ddatganiadau Cabinet a chwestiynau Llafar yn well;
- Newid dyddiadau cau ar gyfer derbyn Hysbysiad o Ddeisebau neu newid cyfarfod Chwipiau Grwpiau Plaid er mwyn eu cynnwys yn y broses o ystyried amseru cyfarfodydd y Cyngor gyda Chadeirydd y Cyngor;
- Creu rheol ar gyfer delio â phleidleisiau wedi'u gohirio yn dilyn cyfarfodydd – mae hynny i ddelio gyda diwygiadau wedi'u cyfuno i ddeisebau;
- Adolygu rheolau ar Recordio / Ffilmiau cyfarfodydd y Cyngor, Pwyllgorau a Chraffu;
- Yr angen i gynnwys Cynllun Deisebau'r Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Swyddogaethau Craffu – Dywedwyd wrth y Pwyllgor am argymhelliad a dderbyniwyd gan Gadeiryddion Craffu i ystyried diwygio'r rheolau Galw i Mewn cyfredol mewn perthynas â materion sydd wedi bod yn destun Penderfyniad Cyn Craffu. Roedd y Cadeiryddion yn argymell, mewn achosion o'r fath, y dylid caniatáu galw penderfyniad i mewn ond os oes gwybodaeth newydd neu ychwanegol berthnasol nad yw wedi'i hystyried o'r blaen gan y Pwyllgor Craffu perthnasol, er mwyn osgoi dyblu gwaith eisoes wedi'i wneud. Dan reolau cyfredol Caerdydd, gellir galw penderfyniad Gweithredol i mewn gan unrhyw Aelod nad yw'n aelod o'r Cabinet. Mae nifer o awdurdodau yn gofyn bod cais galw i mewn yn cael ei gefnogi gan fwy nag un Aelod ac mae sawl awdurdod yn gofyn bod y cais yn cael cefnogaeth trawsbleidiol. Efallai y bydd yr Aelodau am ystyried adolygu rheolau Caerdydd yn hyn o beth.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn gwneud adolygiad â thema genedlaethol o swyddogaeth graffu Caerdydd, ' Craffu – Diben i'r Dyfodol'. Diben yr adolygiad yw ystyried sut mae Cynghorau yn ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chraffu byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa y Cyngor

o ran ymateb i heriau'r dyfodol gan gynnwys pwysau parhaol ar gyllid cyhoeddus a symudiadau posibl tuag at weithio mwy rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol; ac adolygu cynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael ag argymhellion gynt SAC. Caiff unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â'r materion cyfansoddiadol a allai godi o adolygiad SAC eu hadrodd i Bwyllgor y Cyfansoddiad i'w hystyried maes o law.

Gweithgorau Aelodau Trawsbleidiol – Nododd y Pwyllgor y disgwylir i Grŵp Trawsbleidiol i Fenywod gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Ymgynghoriad Aelod Ward – dyma faes pwysig i Gynghorwyr ac roedd wedi'i awgrymu bod diwygiad wedi'i wneud i'r Cynllun Dirprwyo, Dirprwyo Swyddogion, Adran 4A i sicrhau bod swyddogion yn ymgynghori'n llawn â Chynghorwyr Ward ar faterion sy'n effeithio'n benodol ar eu hward neu sy'n cael effaith sylweddol ar fwy nag un ward.

Cwestiynau i'r Aelodau Cabinet – roedd y Ddogfen Ymgynghori ar reolau RGC wedi tynnu sylw at fforymau eraill lle y gallai cwestiynau cyhoeddus fod yn fwy priodol megis Cabinet neu Bwyllgorau Craffu.
PENDERFYNWYD – Bod

1. Adroddiad yn cael ei baratoi i'r Cyngor Llawn i argymell gweithredu meysydd lle bod consensws trawsbleidiol a chaiff hyn ei gylchredeg i Arweinwyr pob Grŵp Plaid a Chwipiau i gytuno arno cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd;

2. y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn paratoi adroddiadau pellach ar unrhyw newidiadau posibl eraill i'w hystyried gan y Pwyllgor a bod y rhain yn cael eu hymgorffori yng Nghynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2017/18.

13 : BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Derbyniodd y Pwyllgor Blaengynllun Gwaith drafft wedi'i baratoi yn dilyn trafodaeth gychwynnol yn ei gyfarfod ar 31 Awst 2017.

PENDERFYNWYD – Bod

1. Blaengynllun Gwaith Pwyllgor y Cyfansoddiad yn cael ei gymeradwyo; a

2. bod pwerau'n cael eu dirprwyo i Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i ddiweddaru'r cynllun i gynnwys blaenoriaethu eitemau cynllun gwaith yn unol â dyrannu adnoddau i bob maes pwnc.

14 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD – cytuno dyddiad y cyfarfod nesaf gyda'r Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.